

**Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd
Prifysgol Cymru**

Adroddiad Blynyddol

Hydref 2019 – Medi 2020



**University of Wales
Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies**

Annual Report

October 2019 – September 2020



Blwyddyn ryfedd fu hon i ni yn y Ganolfan, fel i bawb arall yn y wlad, a theimladau cymysg iawn sydd gennyf wrth lunio adroddiad arni. Roedd hanner cyntaf y flwyddyn yn gyfnod prysur a chynhyrchiol, ac wedyn fe'n trawyd gan y pandemig a'r clo mawr a ddaeth yn ei sgil. Gyda llyfrgelloedd ymchwil ynghau a'r cydweithio agos sydd mor hanfodol i'n prosiectau yn anodd iawn, edrychai pethau'n o dywyll ar ddechrau'r cyfnod clo. Bu'n rhaid gohirio gwaith maes a nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus, gan gynnwys dwy gynhadledd bwysig ac Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion lle roedd nifer ohonom wedi bwriadu cyflwyno peth o ffrwyth ein hymchwil. Serch hynny, ymaddasodd pawb i'r sefyllfa newydd, a thrwy ddefnydd dyfeisgar o dechnoleg ddigidol mae cydweithio wedi parhau o bell, a seminarau tymor yr hydref wedi denu cynulleidfaoedd eang ar lein. Rwy'n ddiolchgar i'm cyd-weithwyr am ddal ati mor ddygn dan amgylchiadau heriol dros ben. Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad hwn ar y gwaith da a gyflawnwyd er gwaetha'r holl anawsterau.

Mae cyfyngiadau'r pandemig wedi ein gorfodi i newid ein ffyrdd o weithio, ac nid er gwaeth bob tro. Manteisiodd staff Uned y Geiriadur ar y cyfle i sefyll yn ôl oddi wrth y dasg ddi-ben-draw o ychwanegu geiriau newydd er mwyn gwella cywirdeb a defnyddioldeb *GPC* trwy brawfddarllen hen erthyglau, gwirio dyfyniadau ac estyn byrfoddau. Ni fu'n bosibl i ddim 'Porthladdoedd Ddoe a Heddiw' gynnal yr holl weithgareddau cymunedol arfaethedig ym mhorthladdoedd Cymru ac Iwerddon yn ystod y cyfnod clo, ond mae'r cyswllt fideo wedi bod yn gaffaeliad aruthrol i brosiect sy'n wynebu'r her o bontio'r pellterau.

Mae testunau golygedig Cymraeg a Lladin y ddau brosiect ar seintiau Cymru yn dal i gael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar y wefan <seintiaucymru.ac.uk>. Ac yn ddiweddar iawn daeth y newyddion da ein bod wedi ennill grant dilyniant gan yr AHRC am weithgareddau cyhoeddus dan y teitl 'Delweddu Seintiau Cymru' sy'n cynnwys datblygu 'Seintiadur', sef cronfa o wybodaeth a delweddau gweledol a fydd yn fodd i ledaenu canfyddiadau ymchwil y ddau brosiect.



Yr Athro/Professor Dafydd Johnston

This has been a strange year for us at the Centre, as it has been for the rest of the country, and it is with very mixed feelings that I write this report. The first half of the year was a busy and productive period, and then we were struck by the pandemic and the subsequent lockdown. As research libraries closed and the close collaboration which is so essential to our projects became extremely problematic, the outlook at the beginning of the lockdown period was grim. Fieldwork and a number of public events had to be postponed, including two important conferences and the Ceredigion National Eisteddfod at which several of us had planned to present some of

the outcomes of our research. Nevertheless, everyone adapted to the new situation, and through resourceful use of digital technology collaborations have continued remotely, and our autumn term seminars attracted wide audiences online. I am grateful to my colleagues for pressing on with such determination under exceptionally challenging circumstances, and it gives me great pleasure to present this report on the good work which has been done in spite of all these difficulties.

Restrictions caused by the pandemic have forced us to change our ways of working, and not always for the worse. The staff of the Dictionary Unit took advantage of the opportunity to step back from the endless task of adding new words in order to improve the accuracy and usefulness of *GPC* by proofreading old articles, checking quotations and extending abbreviations. It was not possible for the 'Ports Past and Present' team to hold all the community activities they had planned in the port towns of Wales and Ireland during lockdown, but the video link has proved to be of enormous benefit to a project which faces the challenge of bridging distances.

Edited texts in Welsh and Latin produced by the two projects on the saints of Wales continue to appear regularly on the website <seintiaucymru.ac.uk>. And very recently we had the good news of the award of an AHRC follow-on grant for public engagement under the heading 'Visualizing the Saints of Wales', including the development of a 'Seintiadur', a database of informa-

Er gwaetha'r siom o orfod gohirio'r gynhadledd arfaethedig am weithfeydd copr Cymru ar y funud olaf ym mis Mawrth, mae gwaith yr Athro John Koch ar Oes yr Efydd wedi parhau gyda'i bartneriaid rhyngwladol, a da yw gweld cyhoeddi ei astudiaeth bwysig ar eirfa gyffredin rhwng yr ieithoedd Celtaidd a Germanaidd.

Bu'n rhaid ailwampio amserlen gyhoeddi *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes* yn sgil cau Llyfrgell Genedlaethol Cymru oherwydd y pandemig, ond mae Dr Daniel Huws a'i gynorthwydd Gruffudd Antur wedi bwrw ymlaen gyda'r gwaith paratoi gyda chymorth yr Athro Ann Parry Owen a staff y Llyfrgell, ac fe gyhoeddir y tair cyfrol yn ystod haf 2021. Gobeithiwn allu dathlu'r cyhoeddiad mewn cynhadledd fawr yn y Llyfrgell Genedlaethol pan fydd amylchiadau'n caniatáu digwyddiadau o'r fath.

Cwblhawyd y broses o drosglwyddo staff i Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant eleni. Dyma gyfle i ddatblygu ymhellach y cydweithio sydd eisoes ar y gweill o ran ymchwil a dysgu. Mae staff y Ganolfan yn cyfrannu at y cynlluniau BA ac MA mewn Astudiaethau Celtaidd mewn cydweithrediad â'r Athro Jane Cartwright, ac mae'r gwaith dysgu'n dechrau dwyn ffrwyth o ran ffrwd newydd o fyfyrwyr ymchwil. Llongyfarchwn ddau o'n hól-raddedigion, Andrew Brown a Jeanne Mehan, ar ennill eu doethuriaethau eleni.

Nid y pandemig yn unig sy'n gyfrifol am y teimladau cymysg sydd gennyf wrth sgrifennu hyn o lith. Hwn fydd yr adroddiad olaf i mi ei lunio, gan fy mod yn ymddeol ar ddiwedd 2020 wedi dros ddeuddeng mlynedd fel Cyfarwyddwr y Ganolfan. Carwn ddiolch o galon i'm holl gyd-weithwyr dros y cyfnod hwnnw am y cyfeillgarwch a wnaeth fy swydd yn un mor bleserus a boddhaol. Testun balchder mawr i mi yw'r holl waith ymchwil pwysig a gyflawnwyd yn ystod fy nghyfnod yn y Ganolfan, a braint oedd cael bod yn rhan ohono. Dyledus wyf hefyd i swyddogion Prifysgol Cymru, ac yn ddiweddar Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, am eu cydweithrediad parod, ac i'r ddau Is-Ganghellor a fu yn ystod fy nghyfnod i, yr Athro Marc Clement a'r Athro Medwin Hughes, am eu cefnogaeth gyson i'r Ganolfan.

tion and visual images which will be a further means of disseminating the research findings of the two projects.

Despite the disappointment of having to postpone the scheduled conference on the copper mines of Wales at the last minute in March, Professor John Koch's work on the Bronze Age continues with his international partners, and we welcome the publication of his important study of vocabulary common to the Celtic and Germanic languages.

The timetable for publication of *A Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes* had to be revised due to the closure of the National Library of Wales because of the pandemic, but Dr Daniel Huws and his assistant Gruffudd Antur pressed on with the preparations with the support of Professor Ann Parry Owen and staff of the Library, and the three volumes will be published in the summer of 2021. We hope to be able to celebrate the publication in a major conference to be held at the National Library when circumstances allow for such events.

The transfer of staff to the University of Wales Trinity Saint David was completed this year. This is an opportunity to develop further the existing cooperation in both research and teaching. CAWCS staff contribute to the BA and MA schemes in Celtic Studies in collaboration with Professor Jane Cartwright, and the teaching is beginning to bear fruit in a new stream of research students. We congratulate two of our postgraduates, Andrew Brown and Jeanne Mehan, on gaining their doctorates this year.

The pandemic is not the only reason for my mixed feelings as I write these words. This will be my last annual report, since I will be retiring at the end of 2020 after more than twelve years as Director of the Centre. I would like to express my heartfelt thanks to all my colleagues over that period for the companionship which has made my post such a pleasurable and satisfying one. I take great pride in the important research which has been accomplished during my time at the Centre, and consider it a privilege to have participated in it. I am also indebted to the officers of the University of Wales, and most recently also to those of the University of Wales Trinity Saint David, for their ready cooperation, and to the two Vice-Chancellors during my time, Professor Marc Clement and Professor Medwin Hughes, for their constant support to the Centre.

Cyfnod anghyffredin iawn yn hanes hir y Geiriadur oedd y deuddeng mis ers yr adroddiad diwethaf pan orfodwyd cau'r adeilad. Hyd yn oed yn ystod yr Ail Ryfel Byd parhaodd o leiaf un aelod o'r staff i gadw swyddfa'r Geiriadur ar agor. Bwriwyd ymlaen â'r gwaith drafftio a golygu erthyglau ar gyfer y Geiriadur am yn agos i chwe mis cyn i'r cyfyngiadau Covid-19 ddod i rym. Rhyddhawyd swp o 259 o erthyglau newydd ym mis Mawrth 2020 a gellir gweld rhestr o'r holl erthyglau newydd a gyhoeddwyd ers mynd ar lein yn 2014 ar wefan y Geiriadur: <<http://www.geiriadur.ac.uk/geiriau-newydd>>. Ar yr un pryd newidiwyd GPC Ar Lein a'r apiau i gynnwys yr holl ffurfiau lluosog a geiriau eraill sy'n ymddangos yn yr wybodaeth ramadegol am y dangosair yn y chwiliadau am eiriau Cymraeg. Tan yn ddiweddar talfyrwyd y ffurfiau hyn i arbed lle yn y cyfrolau argraffedig, ond rydym wedi bod yn estyn miloedd o'r rhain er mwyn iddynt allu ymddangos yn y canlyniadau chwilio. Erys miloedd wedi'u talfyrru o hyd a bydd angen rhagor o waith ymchwil cyn y gellir estyn pob un ohonynt, ond mae hyn eisoes wedi cyfoethogi'r chwilio.

Pan ddechreuodd yr argyfwng iechyd roedd yn rhaid penderfynu ar frys sut i newid ein ffordd o weithio fel ei bod yn bosibl gweithio o'n cartrefi gan barhau i gyfrannu at gynydd y prosiect. Penderfynwyd glynu at y polisi hirsefydlog o beidio â mynd â slipiau'r Geiriadur

The twelve months since the last report have been a very unusual period in the long history of the Dictionary with the enforced closure of the building. Even during the Second World War at least one member of staff continued to keep the Dictionary office open. The drafting and editing of articles for the Dictionary continued for almost six months before the Covid-19 restrictions came into force. A batch of 259 new articles was released in March 2020 and a list of all new articles published since going online in 2014 can be found on the Dictionary's website at <<http://www.welsh-dictionary.ac.uk/new-words>>. At the same time GPC Online and the apps were modified to include all the plural forms and other words that appear in the grammatical information about the headword in searches for Welsh words. Until recently these forms were abbreviated to save space in the printed volumes, but we have been expanding thousands of them so that they can appear in search results. Thousands still remain abbreviated and further research will be required before every one can be expanded, but this has already enriched searches.

When the health crisis began it was necessary to decide urgently how to change the way we work so that we could work from home and continue to contribute to the progress of the project. It was decided to adhere to the long-standing policy of not removing the Dictionary's slips from the office which meant that normal



Aelodau o Bwyllgor Ymgynghorol a Staff Faclair na Gàidhlig yn cyfarfod dros Zoom ar 25 Medi 2020 o'r Alban, Ffrainc, Iwerddon, a Chymru: Faclair na Gàidhlig meeting via Zoom on 25th September 2020 from Scotland, France, Ireland, and Wales / Faclair na Gàidhlig (Dictionary of Gaelic) Advisory Committee members and staff meeting via Zoom on 25 September 2020 from Scotland, France, Ireland, and Wales: Lorna Pike, Sharon Pearson, Marace Dareau, Alasdair Campbell, Andrew Hawke, William Gillies, Mark McConville, Ola Szczesnowicz, Charles Dillon, Eystein Thanisch, Roibeard Ó Maolalaigh, Martina Maher, Stephen Barrett, Ruaraidh MacIntyre, and Anthony Harvey.

o'r swyddfa a olygai na fyddai modd parhau â'r gwaith golygu arferol. Yn lle hynny, penderfynwyd ymgymryd â phrawffddarllen rhannau penodol o'r gwaith, cywiro gwallau, cofnodi problemau, a gwella'r cofnodion drwy estyn byrfoddau a thacluso amgodiad y testun. Pan droswyd testun y Geiriadur i ffurf dddigidol yn ôl yn yr 1980au a'r 1990au, teipwyd y testun cyfan (yn cyfateb o ran hyd i tua chwe gwaith hyd y Beibl) gan un o'r staff am gyfran o'i hamser dros gyfnod o ddeng mlynedd. Er gwaetha'r teipio hynod ofalus a'r ffaith fod y testun wedi'i ddarllen a'i gywiro, roeddem yn ymwybodol fod gwallau o hyd yn y tudalennau rhwng *C* a *llyys*. Yn ogystal, troswyd y testun digidol hwn unwaith eto i ffurf XML pan droswyd yr holl ddata ar gyfer y system olygu newydd, iLex, fel paratoad i roi'r Geiriadur ar lein. Yn anorod cyflwynodd hyn rai gwallau ychwanegol ac ers hynny, ni chafwyd amser i wirio'r testun yn drylwyr. Yn ystod y cyfnod dan sylw mae rhyw 6,000 o erthyglau wedi eu prawffddarllen yn ofalus a'u cywiro lle bu angen.

Erbyn hyn gwirir pob dyfyniad mewn erthyglau newydd yn erbyn y testun y dyfynnir ohono er mwyn sicrhau cywirdeb. Achubwyd y cyfle, felly, i wirio dyfyniadau yn y rhannau hynaf o'r data (*C-llyys*). I hwyluso'r gwaith penderfynwyd gwirio'r holl ddyfyniadau o un testun penodol yr un pryd. Roedd hyn yn golygu nad oedd angen mynd â llawer o lyfrau o'r swyddfa ac yn naturiol mae'n gynt gwirio yn erbyn un gyfrol na llawer, gan ddefnyddio'r system olygu i chwilio am ddyfyniadau o'r testun arbennig hwnnw oedd heb eu gwirio (gan fod tag ar bob dyfyniad i ddangos a yw wedi'i wirio). Gosodwyd llyfrau penodol i bob aelod o'r staff ac erbyn hyn mae 8,600 o hen ddyfyniadau wedi'u gwirio (a'u cywiro lle bu angen) ac mae testun y Geiriadur dipyn yn lanach o ganlyniad. Serch hynny, erys 113,000 o ddyfyniadau heb eu gwirio o hyd, felly mae digon o waith ar ôl i'w wneud. I'r graddau yr oedd yn ymarferol bosibl, parhawyd i ddrafftio rhai erthyglau newydd, yn enwedig yn achos

editing could not be continued. Instead, it was decided to undertake proofreading of specific parts of the work, correcting errors, recording problems, and improving the entries by expanding abbreviations and tidying up the encoding of the text. When the Dictionary text was converted to digital form back in the 1980s and 1990s, one member of staff keyed in the entire text (roughly equivalent to about six times the length of the Bible) for a portion of her time over a period of ten years. Despite the extremely careful typing and the fact that the text was read and corrected, we were aware that there were still typographical errors in the pages between *C* and *llyys*. In addition, this digital text was converted yet again to XML when all the data for the new editing system, iLex, was converted in preparation for putting the Dictionary online. This inevitably introduced some additional errors. Since then, there has been no time to thoroughly check the text. During the period under review some 6,000 articles have been carefully proofread and corrected where necessary.

All citations in new articles are now checked against the quoted text to ensure accuracy. We took the opportunity, therefore, to check citations in the oldest parts of the data (*C-llyys*). To facilitate verification it was decided to check all the quotations from one specific text at the same time. This removed the necessity to take a large number of books out of the office and naturally it is quicker to check against one volume rather than many, using the editing system to search for unverified citations from that particular text and then check them (as each citation has a tag to show whether it has been checked). Each member of staff was allocated specific books and by now 8,600 old citations have been checked (and corrected where necessary) and the Dictionary text is considerably more accurate as a result. Despite that, there are still 113,000 unverified citations, so there is still some way to go.



Mr Ambrose Roberts, a oedd yn deipydd i'r Geiriadur yn y 1950au, yn cwrdd â'i hen deipiadur unwaith eto yn swyddfeydd y Geiriadur wrth iddo rannu'i brofiadau gyda'r staff ym mis Ionawr 2020.

Mr Ambrose Roberts, who was a typist on the Dictionary staff in the 1950s, meets his old typewriter once again in the Dictionary's offices as he shares his experiences with the staff in January 2020.

rhai geiriau newydd lle na ddisgwyliid y byddai llawer o dystiolaeth yn y slipiau dyfynnu. Yn yr achosion hyn roedd yn bosibl defnyddio ein cronfa electronig o destunau ynghyd â'r archif We a baratowyd i ni gan yr Athro Kevin Scannell a chwilio ffynonellau ar lein megis adnoddau'r Llyfrgell Genedlaethol (yn enwedig Cylchgronau Cymru a Phapurau Newydd Cymru), Cofnod y Cynulliad, a'r We yn gyffredinol. Golyga hyn fod nifer o erthyglau drafft mewn llaw a bydd y staff yn gallu chwilio drwy'r slipiau yn y swyddfa dros y misoedd nesaf am enghreifftiau cynharach. Llwyddwyd hefyd i wneud rhywfaint o waith rhagolygu ar erthyglau newydd a oedd wedi'u llunio cyn dechrau'r argyfwng. Barnwyd bod y gwaith prawfddarllen a gwirio dyfyniadau wedi bod mor fuddiol fel y byddai'n briodol parhau i wneud y gwaith hwnnw am y tro ochr yn ochr â'r gwaith o ddrafftio a golygu erthyglau.

Manteisiwyd ar y cyfnod dan glo i sganio ac ychwanegu llawer o destunau digidol newydd at ein casgliad o ddata chwiliadwy. Rhoddwyd llawer o ddeunydd ar lein am y tro cyntaf, e.e. ymddangosodd dros gan rhifyn o wahanol bapurau bro ar lein ar wefan Bro360 a sylwyd bod gwefannau rhai o'r papurau hyn yn cynnwys ôl-rifynnau niferus. Sganiwyd nifer fawr o lyfrau a chylchgronau amrywiol ar gyfer y gronfa a'u trosi i destun chwiliadwy, gan chwyddo'r gronfa yn sylweddol. Ceir tua 9,500 o destunau o bob math a chyfnod erbyn hyn sy'n cynnwys 67GB o ddata. Mae Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru wedi arwyddo cytundeb yn caniatáu i ni dderbyn copïau electronig o'u cyhoeddiadau, a llofnodwyd cytundebau drwy eu cymorth gyda'r cwmnïau cyhoeddi y cyfieithwyd eu gwerslyfrau i'r Gymraeg dan nawdd y Cynllun Adnoddau Addysgu a Dysgu, gan gynnwys Illuminate Publishing, Crown House a Hodder Education. Hyd yn hyn derbyniwyd 95 testun gan CBAC, yn cynnwys cyhoeddiadau o 2016 ymlaen ar draws y cwricwlwm academaidd a galwedigaethol. Rydym yn ddiolchgar iawn i CBAC a'r cyhoeddwr am eu haelioni. Bydd y testunau hyn yn adnodd gwirioneddol werthfawr i ni o ran chwilio am derminoleg a'r eirfa ddiweddaraf ym myd addysg wrth i'r casgliad dyfu dros y blynyddoedd i ddod.

Cyfrannodd y staff i nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys hyfforddiant ar y Geiriadur i fyfyrwyr ymchwil y Coleg Cymraeg ym Mangor ac i fyfyrwyr ymchwil Prifysgol Aberystwyth. Bu'n rhaid gohirio cyfarfodydd arferol Cyfeillion y Geiriadur oherwydd y pandemig, ond llwyddwyd i gynnal cyfarfodydd a darlithoedd ar lein, cyhoeddi erthyglau, cyfrannu i raglenni radio, ac yn y blaen.

As far as was practicable, we continued to draft some new articles, especially for some new words where we would not expect to find much evidence in the citation slips. In these cases it was possible to use our database of electronic texts together with the Web archive prepared for us by Professor Kevin Scannell and to search online sources such as the National Library's resources (especially the Welsh Journals and Welsh Newspapers), the Record of the Welsh Assembly, and the Web in general. This means that a number of draft articles are in hand and staff will be able to search the slips in the office over the coming months for earlier examples. We also managed to do some preparatory work on new articles that had been drafted before the beginning of the crisis. Proofreading and quotation checking were judged to have been so beneficial that it would be appropriate to continue to do that work for the time being alongside the drafting and editing of articles.

We took advantage of the lockdown period to scan and add many new digital texts to our searchable collection of data. Much material was put online for the first time, for example over a hundred issues of various community newspapers (*papurau bro*) appeared online on the Bro360 website and we noticed that the websites of some of these newspapers contained numerous back issues. A large number of various books and magazines were scanned and converted to searchable text for the database, enlarging it significantly. There are now around 9,500 texts of all types and periods containing 67GB of data. The Welsh Joint Education Committee has signed an agreement allowing us to receive electronic copies of their publications, and agreements have been signed with their support with the publishing companies whose textbooks have been translated into Welsh under the auspices of the Teaching and Learning Resources Scheme, including Illuminate Publishing, Crown House and Hodder Education. To date 95 texts have been received from the WJEC, including publications from 2016 onwards across the academic and vocational curriculum. We are very grateful to the WJEC and the publishers for their generosity. These texts will be a very valuable resource for us in the search for terminology and the latest vocabulary in the field of education as the collection grows over the coming years.

Staff contributed to a number of public events during the year, including training on the Dictionary for research students of the Coleg Cymraeg in Bangor and for research students at Aberystwyth University. The usual meetings of the Friends of the Dictionary had to be postponed because of the pandemic, but we attended

Mae'r staff yn cynrychioli'r Geiriadur ar nifer o baneli a phwyllgorau, ac mae'r gwaith hwn yn parhau ar lein.

Mae'r defnydd o GPC Ar Lein wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn, yn enwedig yn ystod y cyfnod dan gyfyngiadau llym. Prosesodd gweinydd GPC Ar Lein dros chwe miliwn o geisiadau yn ystod y flwyddyn, cynnydd sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bu'n rhaid addasu'r gwasanaeth ar lein i weithio'n iawn gyda'r fersiynau diweddaraf o systemau gweithredu Apple, a bydd angen hefyd addasu'r apiau sy'n parhau'n boblogaidd gyda nifer gynyddol o bobl yn eu defnyddio. Mae 'Gair y Dydd' yn cael ei weld gan filoedd o bobl ar Twitter, Facebook a Twt.Cymru ac mae cyfrif Instagram y Geiriadur yn denu sylw cynyddol.

Erbyn hyn trawsgrifiwyd y cwbl o'r 13,000 o slipiau a sganiwyd ar gyfer cynllun peilot 'GPC+': <<http://www.geiriadur.ac.uk/slipiau>>. (Cynllun torfoli ar lein i drawsgrifio lluniau o'r slipiau dyfynnu i ffurf cronfa ddata yw GPC+.) Rhaid dweud bod y rhan fwyaf o lawer o'r gwaith wedi'i gyflawni gan un trawsgrifiwr ymroddedig ac rydym yn ddiolchgar iawn iddo am ei waith diflino. Y bwriad oedd sganio rhagor o slipiau er mwyn gallu parhau â'r gwaith, ond llesteiriwyd hyn gan y pandemig. Serch hynny, gobeithio bydd rhagor o ddeunydd i'w drawsgrifio erbyn i hyn gael ei gyhoeddi.

Ymddiswyddodd Sara Down-Roberts, un o'n Golygyddion Cynorthwyol, ar ddiwedd mis Mawrth. Diolchwn iddi am ei chyfraniad gwerthfawr i'r Geiriadur er 2007 a dymunwn bob llwyddiant iddi yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r Geiriadur yn ariannol, gan gydnabod ei bwysigrwydd i isadeiledd ieithyddol y Gymraeg, ac rydym yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth anhepgor hon sy'n golygu bod modd cynnig cyfoeth cynnwys y Geiriadur i gynifer o bobl am ddim.

meetings and delivered lectures online, published articles, contributed to radio programs, and so on. Staff represent the Dictionary on a number of panels and committees, and this work has continued online.

The use of GPC Online has increased significantly over the year, especially during the lockdown period. The GPC Online server processed more than six million requests over the course of the year, a considerable increase over the previous year. The online service has had to be modified recently to work correctly with the latest versions of Apple's operating systems, and the apps – which are still popular, with an increasing number of people using them – will also need to be modified. The 'Word of the Day' is seen by thousands of people on Twitter, Facebook and Toot.Wales and the Dictionary's Instagram account is gaining increasing attention.

All 13,000 of the slips that were scanned for the 'GPC+' pilot project (<<http://www.geiriadur.ac.uk/slipiau>>) have now been transcribed. (GPC+ is an online crowd-sourcing scheme to transcribe images of the citation slips into a database.) It has to be said that by far the greatest part of the work was done by one committed transcriber and we are extremely grateful to him for his tireless effort. The intention was to scan more slips to enable the project to continue, but this was hampered by the pandemic. However, we hope there will be more material to transcribe by the time this is published.

Sara Down-Roberts, who had worked as an Assistant Editor with the Dictionary since 2007, resigned at the end of March. We thank her for her valuable contribution to the Dictionary and wish her every success in the future.

The Welsh Government continues to support the Dictionary financially, acknowledging its importance to the linguistic infrastructure of the Welsh language, and we are very grateful for this indispensable support which enables the Dictionary's rich content to be shared with so many people free of charge.

Teithwyr Chwilfrydig: Thomas Pennant a Theithio i Gymru ac i'r Alban 1760–1820

Rydym yn ymwybodol o eironi gweithio ar brosiect sy'n ymwneud â theithio yn ystod cyfnod clo a than y cyfyngiadau cyfredol. A ninnau'n teithio llawer llai ein hunain, fodd bynnag, cawsom gyfle i ymgoll'i'n braf mewn teithiau o'r gorffennol, gan ychwanegu nifer o destunau'n rhagor at y golygiadau digidol a geir ar ein gwefan: <<https://editions.curioustravellers.ac.uk/>>. Rydym bellach wedi trawsgrifio a golygu dros 500 o lythyrau o ohebiaeth Pennant, yn cynnwys llythyrau at ac oddi wrth William Owen Pughe a William Morris. Mae'r ysgrifau taith newydd yn cynnwys cofnodion yr artist dyfrlliw a'r gwneuthurwr offer gwyddonol Cornelius Varley a phedwar adroddiad a ysgrifennwyd gan yr awdures o Birmingham, Catherine Hutton, rhwng

Cornelius Varley, *Graig Goch, Moel Hebog*
from near Harlech or Traeth Bach, c. 1802,
dyfrlliw/watercolour,
Metropolitan Museum of Art



1796 a 1800, yn ogystal â disgrifiad bywiog o daith yn yr Alban gan Charlotte Malkin. Mae Dr Luca Guariento yn Glasgow wedi bod mor hael â pharhau i gefnogi'r prosiect ar yr ochr dechnegol, ac, fel arfer, byddem yn ddiolchgar am unrhyw gywiriad, awgrym neu sylw wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo. Roeddem wrth ein boddau pan ymddangosodd cyfrol yr Athro Nigel Leask o'r wasg ym mis Mawrth. Un o gynhyrchion y prosiect hwn yw *Stepping Westward: Writing the Highland Tour 1720–1830* ac fe'i cyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Rhydychen. Cyfrannodd Dr Elizabeth Edwards erthygl bwysig ar Pennant i Literature Compass Online, a bu Dr Ffion Jones yn rhan o rwydwaith ymchwil gyda Early Modern Letters Online, sy'n bartneriaid inni yn Rhydychen. Mae Dr Mary-Ann Constantine ar hyn o bryd yn gyd-archwilydd mewn rhwydwaith tebyg dan arweiniad Glasgow a Choleg y Drindod Dilyn, sy'n cael ei ariannu gan yr AHRC a Chyngor Ymchwil Iwerddon. Mae hwn yn ystyried y ffyrdd y gall y Fframwaith Rhyngweithredadwyedd Delweddau Rhyngwladol (IIIF) fod o ddefnydd i ymchwilwyr, a bydd yn ein galluogi ninnau i archwilio'r posibiladau ar gyfer gweithio gyda fersiynau digidol hardd y Llyfrgell Genedlaethol o gyfrolau addurnedig y *Tours in Wales* gan Thomas Pennant.

Curious Travellers: Thomas Pennant and the Welsh and Scottish Tour 1760–1820

The irony of working on a travel project during lockdown and under the current restrictions has not been lost on us. While making fewer journeys ourselves, however, we have been enjoyably immersed in journeys from the past, adding many more fascinating texts to the digital editions at <<https://editions.curioustravellers.ac.uk>>. We have now transcribed and edited over 500 letters from the Pennant correspondence, including letters to and from William Owen Pughe and William Morris. New tours include previously unpublished accounts

of journeys through Wales by the watercolourist and maker of scientific instruments Cornelius Varley and four tours made by the Birmingham-based writer Catherine Hutton between 1796 and 1800, as well as a lively account of a Scottish tour by Charlotte Malkin. Dr Luca Guariento in Glasgow has generously continued his technical support for the project; as always, we would be glad to receive any corrections, suggestions and comments as this work progresses. We were delighted to see the publication of Professor Nigel Leask's book of the project, *Stepping Westward: Writing the Highland Tour 1720–1830*; which came out with Oxford University Press in March. Dr Elizabeth Edwards contributed an important article about Pennant to Literature Compass Online, and Dr Ffion Jones has been part of a research network with our Oxford-based partners Early Modern Letters Online. Dr Mary-Ann Constantine is currently co-investigator on a similar network led by Glasgow and Trinity College Dublin, and funded by the AHRC and the Irish Research Council. This looks at the uses of the International Image Interoperability Framework (IIIF) for researchers, and will allow us to explore possibilities for working with the beautiful digitized versions of Thomas Pennant's extra-illustrated *Tours in Wales* at the National Library of Wales.

Roedd y galwadau cyhoeddus cyn mis Mawrth yn cynnwys darlith yn yr Archives de Finistère yn Kemper ar daith Hersart de la Villemarqué i Gymru yn 1838 (i gyd-fynd â chyhoeddi ei ohebiaeth o'r cyfnod hwnnw), papur i Seminar Rhamantiaeth Llundain–Paris ar daith Iolo Morganwg o Lundain i dde Cymru yn 1802, sgwrs ar Thomas Pennant i Gylch Llyfryddol Aberystwyth a thrafodaeth bord gron am Laniad y Ffrancod, 1797, yn Theatr Abergwaun. Wedi hynny, roedd y naill ddigwyddiad ar ôl y llall yn cael ei ganslo neu ei ohirio. Aethom ati i ddefnyddio'r amser ychwanegol i weithio ar gais newydd am arian ar y cyd â Phrifysgol Glasgow, Amgueddfa Astudiaethau Natur Llundain, coleg Gaeleg yr Alban Sabhal Mòr Ostaig ar An t-Eilean Sgitheanach (ynys Skye), a Phrifysgol Rhydychen. Os bydd y cais yn llwyddiannus bydd yn ein galluogi i ymchwilio i lenyddiaeth daith Thomas Pennant mewn perthynas â'i gasgliadau o arteffactau, sbesimenau, printiau a phaentiadau.

Porthladdoedd Ddoe a Heddiw

Lansiwyd y prosiect yn swyddogol yn rhan o 'Wythnos Cymru' a gynhaliwyd yn Nulyn ym mis Mawrth, ychydig cyn i'r cyfyngiadau ddod i rym yn gyffredinol. Er na allem fod yn bresennol ar yr achlysur hwnnw, rydym wedi cynnal cysylltiad agos â'n cyd-weithwyr dros y môr ac wedi gweithio'n galed i gryfhau'r berthynas â'r gymuned leol yng Nghaerdybi, Porthladd Dilyn, Ros Láir, Abergwaun a Doc Penfro. Er inni gollir profiad o ddal y fferi ac o ymweld â'r trefi porthladd ein hunain yr haf hwn, rydym wedi dysgu llawer iawn drwy gydweithio â'r cymunedau i ddarganfod a chyflwyno hanesion sy'n seiliedig ar dreftadaeth leol. Mae stori newydd yn

Public engagements before March included a lecture at the Archives de Finistère in Quimper on Hersart de la Villemarqué's 1838 journey to Wales (to coincide with the publication of his correspondence from that period), a lecture on Iolo Morganwg's journey from London to Glamorgan in 1802 to the London–Paris Romanticism Seminar, a talk on Pennant to the Aberystwyth Bibliographical Group and a round table discussion of the 1797 Fishguard Landings in Theatr Abergwaun. From then on it was a flurry of cancellations and deferrals. We have used the time to put together a new grant application in partnership with the University of Glasgow, the Natural History Museum, the Gaelic college Sabhal Mòr Ostaig on Skye, and the University of Oxford, which if successful would allow us to explore Pennant's travel writing in relation to his collections of artefacts, specimens, prints and paintings.

Ports, Past and Present

The project was officially launched during 'Wales Week' in Dublin in March, shortly before Covid restrictions became general; although we could not attend on that occasion, we have kept up a close collaboration with our colleagues across the water, and worked hard to strengthen our relationships with communities in the five port towns of Holyhead, Dublin Port, Rosslare, Fishguard and Pembroke Dock. Despite missing out this summer on the experience of catching ferries and exploring the port towns for ourselves, we have learned a great deal through working with the communities to discover and present local heritage-based stories – a new



Project Launch at 'Wales Week' in Dublin, with Eluned Morgan, Minister for International Relations and the Welsh Language (at the lectern) and Claire Connolly (project lead, University College Cork)

ymddangos bob wythnos ar <<https://portspastpresent.eu>>. Y Ganolfan sy'n arwain ar y Cysylltiadau Creadigol, ac yn gynharach eleni fe wnaethom ddewis y 12 arlunydd, awdur ac artist creadigol arall a fydd yn cael eu comisiynu i gynhyrchu gwaith yn y trefi porthladd dros y misoedd sydd i ddod. Bydd eu pynciau yn amrywio o batrwm ymddygiad gwylanod i fywydau gweithwyr fferi a mordeithiau'r seintiau cynnar, a byddant yn cynnwys mosaigau, cardiau post, teithiau cerdded, darnau sain, animeiddiadau, ffotograffau a darluniadau. Ceir rhagor o wybodaeth am yr artistiaid a'r gwaith arfaethedig yma: <<https://portspastpresent.eu/creativeconnections>>.

Croesawyd aelodau newydd i'r tîm eleni hefyd. Penodwyd Dr Sarah Baylis, sy'n brofiadol ym maes dehongli treftadaeth gymunedol, yn gydlynnydd prosiect ar gyfer tîm y Ganolfan, a daeth Victoria Genn yn swyddog cyllid. Mae'r ddwy wedi cyfrannu'n fawr at hwyluso gwaith y prosiect. Mae Dr Elizabeth Edwards hefyd wedi trosglwyddo'n rhannol i'r prosiect, gan gyfrannu at yr ymchwil a chydweithio gyda'r artistiaid a'r awduron a gomisiynwyd.

Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n cynllunio (rywffaint yn betrus) ar gyfer digwyddiadau'r flwyddyn nesaf, sydd i gynnwys cynnal gŵyl ddigidol neu 'go iawn' ym mhob un o'r pum tref, gan ymuno â grwpiau lleol eraill a chyflwyno gwaith ein hartistiaid yn gyhoeddus. Mae gwaith ymchwil y pedwar partner sy'n rhan o'r prosiect (Coleg y Brifysgol Corc, cyngor sir Loch Garman [Wexford], Prifysgol Aberystwyth a'r Ganolfan Uwchfrydiau) wedi dwyn ffocws amlddisgyblaethol i'r holl ardal o boptu Môr Iwerddon. Mewn cynhadledd ar lein ddiweddar a drefnwyd gan un o'n cyd-weithwyr yng Nghorc, aethpwyd ati i ystyried effeithiau posibl y Coronafeirws a Brexit ar y modd y bydd y porthladdoedd yn gweithredu yn y dyfodol, ac i drafod dylanwad newid hinsawdd a'r chwyldro gwyrdd/glas ar gymunedau arfordirol.

one is released every week on <<https://portspastpresent.eu>>. CAWCS is leading on the Creative Connections strand, and earlier in the year we finally selected our 12 commissioned artists, writers and other creative practitioners who will be producing work in the port towns over the coming months. Their subjects range from the behavioural habits of gulls to the lives of ferryworkers and the voyages of early saints, and will involve mosaics, postcards, walks, sound pieces, animations, photography and illustration. Introductions to the artists and their work in progress can be found here: <<https://portspastpresent.eu/creativeconnections>>.

We also welcomed two new team members this year. Dr Sarah Baylis, who has a background in community heritage interpretation, was appointed project co-ordinator for the CAWCS team; Victoria Genn became our finance officer. Both have contributed a great deal to the smooth running of the project. Dr Elizabeth Edwards has also been partially seconded to the project, and is contributing to research strands and working with the commissioned artists and writers.

We are currently planning ahead (somewhat tentatively) for next year's events, which will include a digital/actual 'Portfest' in each port town, teaming up with other local groups and showcasing the work of our creative practitioners. Research across the four project partners (University College Cork, Wexford County Council, Aberystwyth University and CAWCS) has brought a multidisciplinary focus to the whole Irish Sea area. A recent online conference organized by one of our Cork colleagues explored the potential effects of Covid and Brexit on port operations, and discussed the impact of climate change and the green/blue revolution on coastal communities.



Members of the Ports, Past and Present project team with stakeholders in Fishguard

Tirweddau Cysegredig Mynachlogydd yr Oesoedd Canol

Yn 2018 dyfarnwyd grant i'r Athro David Austin o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant gan Gyngor Ymchwil yr AHRC i gynnal y prosiect rhyngddisgyblaethol am dair blynedd, yn cychwyn Ionawr 2019, i archwilio agweddau ar y tirwedd yng nghyswllt mynachlogydd Sistersaidd yn yr Oesoedd Canol. Dewiswyd dwy ardal i'w cymharu, sef Cymru a chanol swydd Lincoln, gan wedyn ddewis nifer bychan o fynachlogydd i'w hastudio'n fanwl. Mae ymchwilwyr o Brifysgol Leeds yn edrych ar y mynachlogydd yn swydd Lincoln, tra bo'r Athro Ann Parry Owen (fel cyd-archwilydd) a Dr Jenny Day (fel ymchwilydd) yn edrych yn benodol ar y mynachlogydd yng Nghymru drwy lygaid y beirdd canoloesol, yn arbennig Gutun Owain yng Nglyn-y-groes, Llangollen.

Dangosodd 'Prosiect Guto'r Glyn' pa mor allweddol bwysig fu abaty Glyn-y-groes yn y bymthegfed ganrif, ac mae gwaith diweddar ar brosiect 'Cwlt y Seintiau yng Nghymru' a chan haneswyr, yn arbennig o brifysgolion Bangor a Chaer-grawnt, wedi cadarnhau pwysigrwydd y fynachlog fel canolfan dysg yn yr Oesoedd Canol. Cymeriad allweddol o ran dysg ddiwylliannol y cyfnod yn gyffredinol oedd Gutun Owain (*fl. c.1451-98*) a fu'n gweithio fel ysgrifydd yng Nglyn-y-groes yn ail hanner y bymthegfed ganrif. Mae'n amlwg fod diddordebau eang iawn ganddo ef – nid yn unig yr oedd yn fardd a ymddiddorai mewn dysg a gramadeg barddol, ond ymddiddorai hefyd mewn pob math o bynciau, megis achyddiaeth, herodraeth, testunau crefyddol, cronicleau a brudiau.

Bydd golygiad o'r cerddi a ganodd Gutun Owain yng Nglyn-y-groes yn ffurfio craidd y gyfrol y mae Jenny yn gweithio arni ar gyfer y prosiect hwn. Wrth gyflwyno golygiad newydd o'r cerddi (gyda chyfieithiad a nodiadau llawn), mae Jenny yn rhoi sylw arbennig i'r cyfeiriadau ynddynt at y tirwedd lleol, nid yn unig fel ffynhonnell bwyd a deunydd adeiladu, ond hefyd o ran ei arwyddocâd crefyddol, ysbrydol a gwleidyddol. Mae trafodaethau gyda'n partneriaid yn Leeds wedi dangos pa mor gwbl unigryw a phwysig yw tystiolaeth y farddoniaeth Gymraeg o safbwynt ein dealltwriaeth o'r mynachlogydd yn gyffredinol.



Abaty Glyn-y-groes
Valle Crucis Abbey

The Sacred Landscapes of Medieval Monasteries

In 2018 Professor David Austin of the University of Wales Trinity Saint David was awarded a grant by the AHRC to carry out a three-year interdisciplinary project, starting January 2019, to explore aspects of the landscape in relation to medieval Cistercian monasteries. Two areas, Wales and central Lincolnshire, were selected for comparison and a small number of monasteries were chosen for detailed study. Researchers from the University of Leeds are working on monasteries in Lincolnshire, while Professor Ann Parry Owen (as co-investigator) and Dr Jenny Day (as a researcher) are looking specifically at the monasteries in Wales through the eyes of the medieval poets, specifically Gutun Owain who was based in Valle Crucis abbey, Llangollen.

The 'Guto'r Glyn Project' demonstrated how vitally important Valle Crucis abbey was in the fifteenth century, and recent work on the 'Cult of Saints in Wales' project and by historians, particularly from the universities of Bangor and Cambridge, has confirmed the abbey's importance as a centre of learning in the Middle Ages. Gutun Owain (*fl. c.1451-98*), who worked as a scribe in Valle Crucis in the second half of the fifteenth century, was a key character in the cultural learning of the period in general. It is clear that he had very broad interests – not only was he a poet who was drawn to poetic learning and grammar, but he had an interest in all kinds of topics, such as genealogy, heraldry, religious texts and prophecies.

An edition of Gutun Owain's poems from Valle Crucis will form the core of the volume that Jenny is working on for this project. In her edition (along with translations and comprehensive notes), Jenny pays particular attention to references in the poems to the local landscape, not only as a source of food and building material, but also in terms of its religious, spiritual and political significance. Initial discussions with our partners in Leeds have shown how unique and important the evidence of Welsh poetry is as regards our understanding of the monasteries in general.

Ewrop Môr Iwerydd yn Oesoedd y Metelau

Ar 1 Mawrth 2020 roedd hi'n flwyddyn union er lansio'r prosiect trawsddisgyblaethol 'Celfyddyd Cerrig, Ewrop Môr Iwerydd, Geiriau a Rhyfelwyr' (*Hällristningar, språk och maritim interaktion i Atlantiska Europa*), sydd i barhau am bedair blynedd i gyd. Mae'r prosiect yn ymchwilio i gyfnod o gyswllt a fu rhwng Llychlyn a rhanbarth orllewinol Môr Iwerydd yn Oes yr Efydd. Caiff ei ariannu gan Gyngor Ymchwil Sweden (Vetenskapsrådet) a'i arwain o Brifysgol Göteborg gan yr Athro Archaeoleg Johan Ling, gyda'r Athro John Koch o'r Ganolfan Uwchegyrdiau yn gyd-arweinydd. Roedd gwaith y flwyddyn gyntaf yn cynnwys gwneud sganiau 3D o feini coffa rhyfelwyr o Oes yr Efydd a gedwir mewn amgueddfeydd rhanbarthol yn Badajoz a Cáceres yn ne-orllewin Sbaen. Mae rhai o'r cerrig yn cynnwys arysgrif Darteseg yn ogystal. Caiff y meini hyn eu cynnwys yng nghronfa ddata Archif Ymchwil Celfyddyd Cerrig Sweden – Svenskt Hällristnings Forsknings Arkiv (SHFA) – fel bod modd eu cymharu'n fanwl â'r miloedd o baneli o gelfyddyd cerrig sydd wedi eu cofnodi a'u cyflwyno yno eisoes, ac i gyd-fynd â hynny cafwyd rhyngwyneb Sbaeneg newydd i'r gronfa.

Mae'r pandemig wedi tarfu ar waith y prosiect ac wedi ei lesteirio i raddau helaeth. Bu'n rhaid gohirio'r gwaith maes o sganio rhagor o feini o Oes yr Efydd yn Sbaen a Phortiwgal a'r cloddio a oedd i ddigwydd yn Las Minillas, safle mwyngloddio cynhanesyddol mawr mewn rhanbarth yn ne-orllewin Sbaen y darganfuwyd bod y copr a geir mewn arteffactau o Oes yr Efydd ym Mhrydain a Llychlyn yn tarddu ohono. Bu John Koch yn trefnu gweithdy academiaidd rhyngwladol a oedd i fod i ddigwydd ym Mhrifysgol Bangor ym mis Mawrth ar y testun 'Mining, Metals, and Long-Distance Contacts in Bronze Age Wales and Beyond'. Cafwyd cefnogaeth hael tuag at ei gynnal gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru a Phrifysgol Bangor, yn ogystal â Chyngor Ymchwil Sweden. Yr oedd i gynnwys teithiau i safle cloddfa Bryn Copa yng Ngheredigion, sy'n dyddio'n ôl i Oes yr Efydd Gyntaf (c.2000–1600 CC), ac i gloddfa ryfeddol o fawr Penygogarth ger Llandudno, sy'n perthyn i Oes yr Efydd Ganol (c.1600–1400 CC). Mae'r copr a geir mewn efydd yn Llychlyn wedi ei olrhain i'r

Atlantic Europe in the Metal Ages

1 March 2020 marked the first anniversary of the launch of the four-year cross-disciplinary project: 'Rock Art, Atlantic Europe, Words & Warriors' (RAW; *Hällristningar, språk och maritim interaktion i Atlantiska Europa*). The RAW project investigates a Bronze Age episode of contact between Scandinavia and the Atlantic West. The project is funded by the Swedish Research Council [Vetenskapsrådet], is based at the University of Gothenburg and led by Professor of Archaeology Johan Ling, with Professor John Koch of CAWCS as co-leader. Work in the project's first year included 3D scans of Bronze Age 'warrior' stelae from the regional museums of Badajoz and Cáceres in south-west Spain. Some of these stones were also inscribed with texts in the Tartessian script and language. Together with a new Spanish interface, these stelae are being added to the database of the Swedish Rock Art Research Archives (Svenskt Hällristnings Forsknings Arkiv; SHFA) so that they can be closely compared with the thousands of Scandinavian rock art panels documented and made accessible there.

The RAW project has experienced several delays and disruptions due to the pandemic. Postponed fieldwork includes further 3D scanning of Bronze Age stelae in Spain and Portugal and test excavations to take place at Las Minillas, a large prehistoric mining site situated in a region of south-west Spain to which copper in Bronze Age British and Scandinavian artefacts have been traced. John Koch organized an international academic workshop to be held at Bangor University in March on the theme 'Mining, Metals, and Long-Distance Contacts in Bronze Age Wales and Beyond'. This had earned



Caption John

naill safle ar llall. A ninnau'n sylweddoli pwysigrwydd y gwaith cydweithredol hwn wrth fynd ati i ymchwilio i'r cyfnod o gyswllt rhwng Llychlyn a Chymru a ddarganfuwyd yn ddiweddar, cytunodd tîm y prosiect ar cylch o gyd-weithwyr rhyngwladol na ddylid canslo'r gweithdy ar teithiau, ond yn hytrach eu gohirio hyd nes bydd hi'n ddiogel, a chynnal fersiynau llawnach maes o law.

Cyn y cyfnod clo, bu John yn traddodi dwy ddarlith yng Ngholeg y Brifysgol Corc ar wahoddiad yr Athro William O'Brien, pennaeth yr adran archaeoleg ac arbenigwr byd ar fwyngloddio yn Oes yr Efydd nad oes ei ail am ddod o hyd i gloddfeydd copr cynhanesyddol. Bu'r Athro O'Brien yn cyfrannu i'r prosiect y bu John yn ei arwain dan nawdd yr AHRC ('Ewrop Môr Iwerydd yn Oesoedd y Metelau') ac mae wedi cytuno i gymryd rhan yng ngwaith maes prosiect 'Celfyddyd Cerrig' yn ogystal.

Ar y wedd ieithyddol ar waith y prosiect y bu John yn canolbwyntio'n bennaf, ac, yn ffodus, mae'r anawsterau a ddaeth yn sgil y feirws wedi amharu llai ar hynny nag ar y gwaith archaeolegol. Yng ngoleuni'r darganfyddiad newydd am y cyfnod o gyswllt cynhanesyddol rhwng Llychlyn a rhanbarth Môr Iwerydd, mae angen ailedrych ar y corpws o eiriau etifeddedig sy'n gyffredin i Gelteg a Germaneg ond nad ydynt i'w cael yn yr ieithoedd Indo-Ewropeaidd eraill. Yn y gorffennol, fe gynigiai ysgolheigion esboniadau a oedd yn hoelio sylw ar y cysylltiadau a fu rhwng grwpiau Celtaidd a Germanaidd cynnar rhwng c.500 CC ar Cyfnod Rhufeinig. Ond roedd hyn yn ymddangos yn rhy ddiweddar i gyfrif am nifer o'r geiriau Celto-Germanaidd. Nid yw'r rhan fwyaf yn dangos nodweddion geiriau benthyg ac maent yn rhagddyddio'r trawsfurfiad treiddiol cynhanesyddol mewn Germaneg y cyfeirir ato fel Deddf Grimm. Dim ond y darganfyddiadau archaeolegol diweddar sy'n sail i brosiect 'Celfyddyd Cerrig' sydd wedi cynnig damcaniaeth amgen ynglŷn â chyswllt yn Oes yr Efydd. Ysgrifennodd John fonograff ar y pwnc: *Celto-Germanic Prehistory: Later y and Post-Proto-Indo-European Vocabulary in the North and West*. Cyhoeddir yr e-lyfr hwn yn 2020 a gellir ei lawrlwytho o wefan y Ganolfan: <<https://www.wales.ac.uk/Resources/Documents/Centre/2020/Celto-Germanic2020.pdf>>.

Gwahoddwyd John i draddodi un o'r prif ddarlithoedd yn Negfed Gynhadledd Cymdeithas Celto-Slavica yn Szczecin yng Ngwlad Pwyl, a oedd i'w chynnal yn wreiddiol ym mis Medi eleni, ond sydd bellach wedi ei haildrefnu'n amodol ar gyfer 27–9 Mai 2021. Fe'i gwahoddwyd hefyd i siarad yn y gynhadledd 'Indo-

generous support from the Learned Society of Wales and Bangor University, as well as the Swedish Research Council. It was to include site visits to Early Bronze Age (c.2000–1600 BC) Copa Hill mine in Ceredigion and the remarkably large Middle Bronze Age (c.1600–1400 BC) mine at Great Orme near Llandudno. Copper in Scandinavian bronzes have been traced to both sites. Recognizing the importance of this collaborative work in investigating the recently discovered episode of contact between Scandinavia and Wales, the RAW team and their international circle of co-workers agreed that the workshop and site tours should not be cancelled, but delayed until safe and expanded.

